**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

[DRAFFT]

## CYNNWYS

### RHAN 1

TROSOLWG

1 Trosolwg o'r Ddeddf hon

### RHAN 2

ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

*Termau allweddol*

2 Anghenion dysgu ychwanegol
3 Darpariaeth ddysgu ychwanegol

*Cod ymarfer*

4 Cod anghenion dysgu ychwanegol
5 Y weithdrefn ar gyfer gwneud y cod

*Cyfranogiad a mynediad at wybodaeth*

6 Dyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc
7 Cyngor a gwybodaeth

*Llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol*

8 Cynlluniau datblygu unigol
9 Cynlluniau datblygu unigol: ysgolion a gynhelir
10 Cynlluniau datblygu unigol: sefydliadau addysg bellach
11 Amgylchiadau pan nad yw'r dyletswyddau yn adrannau 9 a 10 yn gymwys
12 Cynlluniau datblygu unigol: awdurdodau lleol
13 Amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd yn adran 12 yn gymwys
14 Cynlluniau datblygu unigol: Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau GIG

15 Adolygu cynlluniau datblygu unigol
16 Perthynas cynlluniau datblygu unigol â dogfennau tebyg eraill

*Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau a chynlluniau cyrff llywodraethu*

17 Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau o dan adran 9(1)
18 Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o gynlluniau a gynhelir o dan adran 9
19 Awdurdod lleol i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynlluniau corff llywodraethu

*Peidio â chynnal cynlluniau*

20 Peidio â chynnal cynlluniau datblygu unigol
21 Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau o dan adran 20
22 Cyfyngiad ar beidio â chynnal cynllun er mwyn caniatáu ailystyriaeth neu apêl
23 Rheoliadau ynghylch trosglwyddo cynlluniau datblygu unigol
24 Cynllun datblygu unigol ar ôl pen-blwydd person ifanc yn 25 oed

*Swyddogaethau sy'n ymwneud â sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol*

25 Dyletswyddau cyrff llywodraethu i helpu awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol
26 Dyletswydd i dderbyn plant i sefydliadau a enwir
27 Dim pŵer i godi tâl am ddarpariaeth a sicrheir o dan y Ddeddf hon
28 Dyletswyddau cyffredinol i sicrhau addysg a hyfforddiant ôl-16 ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol

*Darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn mathau penodol o ysgol neu sefydliad arall*

29 Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir
30 Darpariaeth ddysgu ychwanegol ac eithrio mewn ysgolion
31 Diwygio'r gofynion cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol yng Nghymru
32 Amodau sy'n gymwys i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn ysgolion annibynnol
33 Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol
34 Diddymu cymeradwyaeth i ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru
35 Diddymu cymeradwyaeth i ysgolion annibynnol yng Nghymru
36 Darpariaeth ddysgu ychwanegol y tu allan i Gymru a Lloegr

*Anghytundebau ac apelau*

37 Osgoi a datrys anghytundebau
38 Gwasanaethau eirioli annibynnol
39 Cyfeillion achos
40 Apelau
41 Y weithdrefn ar apelau
42 Cydymffurfedd â gorchmynion
43 Lwfansau am fod yn bresennol yn Nhribiwnlys Addysg Cymru
44 Apelau o Dribiwnlys Addysg Cymru i'r Uwch Dribiwnlys

*Atodol*

45 Dyletswydd i gadw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o dan adolygiad
46 Cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol
47 Swyddog meddygol neu glinigol dynodedig
48 Swyddogaethau cyrff iechyd i hysbysu rhieni etc.
49 Dyletswyddau cyrff cyhoeddus penodol i ddarparu gwybodaeth a help arall
50 Hawl awdurdod lleol i gael mynediad i fangreoedd ysgolion a sefydliadau eraill
51 Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol
52 Rheoliadau ynghylch datgelu a defnyddio gwybodaeth
53 Rhieni heb alluedd

*Cyffredinol*

54 Rhoi hysbysiad etc. o dan y Ddeddf hon
55 Personau y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt

**RHAN 3**

PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHERSONAU SY'N CAEL EU CADW'N GAETH

*Plant sy'n derbyn gofal*

56 Rheoliadau ynghylch plant sy'n derbyn gofal a phersonau a fu gynt yn derbyn gofal

*Personau sy'n cael eu cadw'n gaeth*

57 Ystyr "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" a thermau allweddol eraill
58 Llunio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth
59 Amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd yn adran 58 yn gymwys
60 Dyletswydd i gadw cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth
61 Rhyddhau person sy'n cael ei gadw'n gaeth
62 Apelau

**RHAN 4**

TRIBIWNLYS ADDYSG CYMRU

63 Cyfansoddi Tribiwnlys Addysg Cymru
64 Y Llywydd ac aelodau'r paneli
65 Tâl a threuliau

**RHAN 5**

CYFFREDINOL

66 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.
67 Rheoliadau
68 Dehongli cyffredinol

69 Dod i rym
70 Enw byr a chynnwys y Ddeddf yn y rhestr o Ddeddfau Addysg

# Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

[DRAFFT]

Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ddiwygio'r gyfraith ar addysg a hyfforddiant i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol; i roi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch addysg a hyfforddiant i blant sy'n derbyn gofal; ac i barhau â bodolaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru a'i ail-enwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Mawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

## RHAN 1

## TROSOLWG

### 1 Trosolwg o'r Ddeddf hon

(1) Mae Rhan 2 o'r Ddeddf hon (adrannau 2 i 55) yn sefydlu'r brif system statudol ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc yng Nghymru.

(2) Mae adrannau 4 a 5 yn darparu ar gyfer Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n nodi canllawiau ar gyfer personau sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon ac sy'n gosod gofynion ar gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau yn y sector addysg bellach ac awdurdodau lleol.

(3) Mae adran 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch cyfranogiad plant, eu rhieni a phobl ifanc mewn penderfyniadau o dan y Ddeddf ac mae adran 7 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a'r system a sefydlir gan y Ddeddf hon.

(4) Mae adrannau 8 i 28 yn darparu ar gyfer llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau yn y sector addysg bellach a chan awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol; a dyletswyddau cysylltiedig i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn y cynlluniau.

(5) Mae adrannau 29 i 36 yn gwneud darpariaeth ynghylch ysgolion a sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â diwallu anghenion dysgu ychwanegol yn unol â chynlluniau datblygu unigol, gan gynnwys darpariaeth—

(a) sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ffafrio addysg ar gyfer plant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir wrth arfer swyddogaethau o dan Ran 2 (adran 29);

(b) sy'n newid y system gofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhestr o'r ysgolion cofrestredig sy'n dangos y math neu'r mathau o anghenion dysgu ychwanegol y mae ysgol annibynnol yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer (adran 31);

(c) sy'n cyfyngu ar bŵer awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant neu bobl ifanc mewn ysgolion annibynnol i ysgolion annibynnol cofrestredig (adran 32);

(d) sy'n gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu a chynnal rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol a chyfyngiad cyfatebol ar bŵer awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn sefydliadau o'r fath i'r rhai hynny sydd ar y rhestr (adran 33).

(6) Mae adrannau 37 i 44 yn darparu ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau ynghylch cynlluniau datblygu unigol a darpariaeth ddysgu ychwanegol a'r hawl i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru (gweler is-adran (9)) mewn perthynas â phenderfyniadau ynghylch pa un a oes gan blentyn neu berson ifanc anghenion dysgu ychwanegol ai peidio, cynnwys cynlluniau datblygu unigol a phenderfyniadau eraill sy'n ymwneud â chynlluniau.

(7) Mae adrannau 45 i 55 yn ategu'r ddarpariaeth gynharach ac yn gwneud darpariaeth sy'n gymwys yn gyffredinol i Ran 2.

(8) Mae Rhan 3 (adrannau 56 i 62)—

(a) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch addysg plant sy'n derbyn gofal a phersonau a fu gynt yn derbyn gofal (adran 56), a

(b) yn gwneud darpariaeth ynghylch diwallu anghenion addysgol ychwanegol plant sy'n cael eu cadw'n gaeth a phobl ifanc sy'n cael eu cadw'n gaeth drwy orchymyn llys mewn mathau penodedig o lety diogel (adrannau 57 i 62).

(9) Mae Rhan 4 (adrannau 63 i 65) yn parhau â bodolaeth Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru ac yn ei ail-enwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru.

(10) Yn ogystal â'r awdurdodaeth a nodir yn Rhan 2 (adran 40) a Rhan 3 (adran 62), mae gan Dribiwnlys Addysg Cymru awdurdodaeth mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion (am ddarpariaeth ynghylch hyn, gweler adran 116 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15) ac Atodlen 17 i'r Ddeddf honno).

(11) Mae Rhan 5 (adrannau 66 i 70) yn gwneud darpariaeth gyffredinol sy'n gymwys i'r Ddeddf gyfan, gan gynnwys dehongliad cyffredinol o'r Ddeddf yn adran 68.

## RHAN 2

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

*Termau allweddol*

**2 Anghenion dysgu ychwanegol**

(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

(2) Mae gan blentyn sydd o oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—

(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu nag sydd gan y mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu

(b) os oes ganddo anabledd sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

(3) Mae gan blentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw'r plentyn yn debygol o fod o fewn is-adran (2) pan yw o oedran ysgol gorfodol (neu y byddai'r plentyn yn debygol o fod felly, pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei gwneud).

(4) Nid oes gan berson anhawster dysgu neu anabledd dim ond oherwydd bod yr iaith (neu'r ffurf ar iaith) y mae neu y bydd yn cael ei ddysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf ar iaith) sy'n cael ei siarad neu a arferai gael ei siarad gartref.

(5) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

**3 Darpariaeth ddysgu ychwanegol**

(1) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i berson sy'n dair oed neu'n hŷn yw darpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at yr hyn, neu sy'n wahanol i'r hyn, a wneir yn gyffredinol i eraill o'r un oedran—

(a) mewn ysgolion prif ffrwd yng Nghymru,

(b) mewn sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu

(c) mewn mannau yng Nghymru lle y darperir addysg feithrin.

(2) Ystyr "darpariaeth ddysgu ychwanegol" i blentyn sy'n iau na thair oed yw darpariaeth addysgol o unrhyw fath.

(3) Yn is-adran (1), ystyr "addysg feithrin" yw addysg sy'n addas i blentyn sydd wedi cyrraedd tair oed ond sydd o dan oedran ysgol gorfodol.

(4) Caiff rheoliadau ddiwygio'r adran hon i roi cyfeiriadau at oedran gwahanol yn lle'r cyfeiriadau at dair oed.

(5) Mae'r adran hon yn gymwys at ddibenion y Ddeddf hon.

*Cod ymarfer*

**4 Cod anghenion dysgu ychwanegol**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod ar anghenion dysgu ychwanegol ("y cod") a chânt ei ddiwygio o bryd i'w gilydd.

(2) Caiff y cod gynnwys ganllawiau sy'n ymwneud ag arfer swyddogaethau'r personau a ganlyn o dan y Ddeddf hon—

(a) awdurdod lleol yng Nghymru neu yn Lloegr;

(b) corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;

(c) corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;

(d) Bwrdd Iechyd Lleol;

(e) ymddiriedolaeth GIG;

(f) Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

(g) grŵp comisiynu clinigol;

(h) ymddiriedolaeth sefydledig GIG;

(i) person a chanddo ofal am lety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr.

(3) Rhaid i'r personau y cyfeirir atynt yn is-adran (2), wrth arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys yn y cod.

(4) Caiff y cod osod gofynion—

(a) ar awdurdod lleol mewn cysylltiad â'i ddyletswyddau o dan—

(i) adran 7 (cyngor a gwybodaeth);

(ii) adran 38 (gwasanaethau eirioli annibynnol);

(b) ar gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu awdurdod lleol—

(i) mewn cysylltiad â llunio, cynnwys, ffurf, adolygu a diwygio cynlluniau datblygu unigol;

(ii) mewn cysylltiad â pheidio â chynnal cynlluniau datblygu unigol.

(5) Caiff y cod wneud—

(a) darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol, a

(b) darpariaeth ddarfodol, drosiannol neu arbed,

mewn perthynas â gofyniad a osodir o dan is-adran (4).

(6) Mae'r ddyletswydd a osodir gan is-adran (3) a dyletswydd a osodir o dan is-adran (4) hefyd yn gymwys i berson sy'n arfer swyddogaeth at ddiben cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf hon gan y personau a grybwyllir yn is-adran (2).

(7) Rhaid i Dribiwnlys Addysg Cymru roi sylw i unrhyw ddarpariaeth yn y cod yr ymddengys iddo ei bod yn berthnasol i gwestiwn sy'n deillio o apêl o dan y Ddeddf hon.

(8) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r cod sydd mewn grym am y tro ar eu gwefan.

**5 Y weithdrefn ar gyfer gwneud y cod**

(1) Cyn dyroddi neu ddiwygio cod o dan adran 4, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau a ganlyn ar ddrafft o'r cod—

(a) pob awdurdod lleol;

(b) corff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru;

(c) corff llywodraethu pob sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru;

(d) Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;

(e) unrhyw berson arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru yn dymuno bwrw ymlaen â'r drafft (gydag addasiadau neu hebddynt) rhaid iddynt osod copi o'r drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(3) Os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyn diwedd y cyfnod o 40 niwrnod, yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft o'r cod, ni chaiff Gweinidogion Cymru ddyroddi'r cod arfaethedig ar ffurf y drafft hwnnw.

(4) Os na wneir penderfyniad o'r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod ar ffurf y drafft, a

(b) daw'r cod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(5) Caiff gorchymyn o dan is-adran (4)(b)—

(a) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol;

(b) gwneud darpariaeth ddarfodol, drosiannol neu arbed mewn cysylltiad â dod â darpariaeth yn y cod i rym.

(6) O ran y cyfnod 40 niwrnod—

(a) mae'n dechrau ar y diwrnod y gosodir y drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a

(b) nid yw'n cynnwys unrhyw adeg pan fo Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu ar doriad am gyfnod sy'n hwy na phedwar diwrnod.

(7) Nid yw is-adran (3) yn atal drafft newydd o god arfaethedig rhag cael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(8) Mae cyfeiriadau yn yr adran hon at god yn cynnwys cod diwygiedig.

(9) Caniateir i'r gofyniad i ymgynghori a osodir gan is-adran (1) gael ei fodloni drwy ymgynghoriad a gynhelir cyn y daw'r Rhan hon i rym.

*Cyfranogiad a mynediad at wybodaeth*

**6 Dyletswydd i gynnwys a chefnogi plant, eu rhieni a phobl ifanc**

Rhaid i berson sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc roi sylw i'r materion a ganlyn—

(a) safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc,

(b) y pwysigrwydd bod y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn cymryd rhan mor llawn â phosibl yn y penderfyniadau sy'n ymwneud ag arfer y swyddogaeth o dan sylw, ac

(c) y pwysigrwydd bod yr wybodaeth a'r gefnogaeth angenrheidiol yn cael eu darparu i'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc er mwyn eu galluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau hynny.

**7 Cyngor a gwybodaeth**

(1) Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth a chyngor i bobl ynghylch anghenion dysgu ychwanegol a'r system y gwneir darpariaeth ar ei chyfer gan y Ddeddf hon.

(2) Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau y mae'n ystyried eu bod yn briodol i wneud y trefniadau yn hysbys i—

(a) plant a phobl ifanc yn ei ardal,

(b) rhieni plant yn ei ardal,

(c) penaethiaid a pherchenogion ysgolion yn ei ardal, a

(d) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

*Llunio a chynnal cynlluniau datblygu unigol*

**8 Cynlluniau datblygu unigol**

At ddiben y Ddeddf hon, mae cynllun datblygu unigol yn ddogfen sy'n cynnwys—

(a) disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol person;

(b) disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae anhawster dysgu neu anabledd y person yn galw amdani;

(c) unrhyw beth arall sy'n ofynnol neu a awdurdodir gan neu o dan y Ddeddf hon.

**9 Cynlluniau datblygu unigol: ysgolion a gynhelir**

(1) Pan y'i dygir i sylw corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru, neu pan ymddengys fel arall i gorff llywodraethu o'r fath, o ran plentyn neu berson ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol—

(a) y gall fod arno anghenion dysgu ychwanegol, a

(b) nad oes cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw,

rhaid iddo benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, oni bai bod adran 11 yn gymwys.

(2) Os yw'r corff llywodraethu yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol rhaid iddo hysbysu'r plentyn a'i riant neu'r person ifanc am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(3) Os yw'r corff llywodraethu yn penderfynu bod gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, rhaid iddo lunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar ei gyfer.

(4) Pan fo corff llywodraethu ysgol a gynhelir wedi ei gyfarwyddo i lunio a chynnal, neu gynnal, cynllun datblygu unigol ar gyfer person o dan adran 12(4)(b) neu 18(5)(a), rhaid i'r corff llywodraethu lunio a chynnal, neu gynnal, y cynllun (yn ôl y digwydd).

(5) Os yw corff llywodraeth yn llunio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo roi copi o'r cynllun—

(a) i'r plentyn neu'r person ifanc;

(b) os yw'r cynllun yn gymwys i blentyn, i riant y plentyn.

(6) Rhaid i gorff llywodraethu sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir mewn cynllun datblygu unigol y mae'n ei gynnal o dan y Ddeddf hon.

**10 Cynlluniau datblygu unigol: sefydliadau addysg bellach**

(1) Pan y'i dygir i sylw corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru, neu pan ymddengys fel arall i gorff llywodraethu o'r fath, o ran person ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr yn y sefydliad—

(a) y gall fod arno anghenion dysgu ychwanegol, a

(b) nad oes cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y person ifanc,

rhaid iddo benderfynu a oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, oni bai bod adran 11 yn gymwys.

(2) Os yw'r corff llywodraethu yn penderfynu nad oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol rhaid iddo ei hysbysu am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(3) Os yw'r corff llywodraethu yn penderfynu bod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, rhaid iddo lunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar ei gyfer.

(4) Os yw corff llywodraethu yn llunio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo roi copi o'r cynllun i'r person ifanc.

(5) Rhaid i gorff llywodraethu sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir mewn cynllun datblygu unigol y mae'n ei gynnal o dan y Ddeddf hon.

**11 Amgylchiadau pan nad yw'r dyletswyddau yn adrannau 9 a 10 yn gymwys**

(1) Nid yw'r dyletswyddau yn adran 9(1) ac adran 10(1) yn gymwys os yw unrhyw un neu ragor o'r is-adrannau a ganlyn yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn neu'r person ifanc o dan sylw.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r person o dan sylw yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys pan fo'r corff llywodraethu wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol a bod y corff llywodraethu wedi ei fodloni—

(a) nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, a

(b) nad oes gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r corff llywodraethu yn atgyfeirio'r mater i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc i benderfynu arno yn ei le.

(5) Ni chaiff corff llywodraethu atgyfeirio'r mater o dan is-adran (4) ond os yw'n ystyried—

(a) bod penderfynu ar y mater y tu hwnt i'w allu, neu

(b) bod y plentyn neu'r person ifanc yn debygol o fod ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol na fyddai'n rhesymol i'r corff llywodraethu ei sicrhau.

**12 Cynlluniau datblygu unigol: awdurdodau lleol**

(1) Pan y'i dygir i sylw awdurdod lleol neu pan ymddengys iddo fel arall (pa un ai yn dilyn atgyfeiriad o dan adran 11(4), o dan adran 48(4) neu fel arall)—

(a) y gall fod ar blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano anghenion dysgu ychwanegol, a

(b) nad oes cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar gyfer y person hwnnw,

rhaid iddo benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, oni bai bod adran 13 yn gymwys.

(2) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol rhaid iddo hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn, am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(3) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (4) yn gymwys—

(a) yn achos plentyn, os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y plentyn anghenion dysgu ychwanegol,

(b) yn achos person ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru neu sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru, os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, neu

(c) yn achos unrhyw berson ifanc arall, os yw'r awdurdod lleol—

(i) yn penderfynu bod gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol, a

(ii) yn penderfynu yn unol â rheoliadau ei bod yn angenrheidiol llunio a chynnal cynllun o dan yr adran hon ar gyfer y person ifanc i ddiwallu ei anghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant.

(4) Rhaid i'r awdurdod lleol—

(a) llunio a chynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y plentyn hwnnw neu'r person ifanc hwnnw, neu

(b) os yw'r plentyn neu'r person ifanc i fynychu ysgol a gynhelir—

(i) llunio cynllun datblygu unigol a chyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i gynnal y cynllun, neu

(ii) cyfarwyddo corff llywodraethu'r ysgol i lunio a chynnal y cynllun.

(5) Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni na ellir diwallu anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol oni bai ei fod hefyd yn sicrhau darpariaeth o'r math a grybwyllir yn is-adran (6), rhaid i'r awdurdod gynnwys disgrifiad o'r ddarpariaeth arall honno yn y cynllun.

(6) Y mathau o ddarpariaeth yw—

(a) bwyd a llety;

(b) darpariaeth ragnodedig.

(7) Os yw'r ddyletswydd yn is-adran (5) yn gymwys i awdurdod lleol, ni chaiff roi cyfarwyddyd o dan is-adran (4)(b).

(8) Os yw awdurdod lleol yn llunio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo roi copi o'r cynllun —

(a) i'r plentyn neu'r person ifanc, a

(b) os yw'r cynllun yn gymwys i blentyn, i riant y plentyn.

(9) Pan fo awdurdod lleol yn cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc, rhaid i'r awdurdod sicrhau—

(a) y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn y cynllun, a

(b) unrhyw ddarpariaeth arall a ddisgrifir yn y cynllun yn unol ag is-adran (5).

**13 Amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd yn adran 12 yn gymwys**

(1) Nid yw'r ddyletswydd yn adran 12(1) yn gymwys os yw unrhyw un neu ragor o'r is-adrannau a ganlyn yn gymwys mewn perthynas â'r plentyn neu'r person ifanc o dan sylw.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni bod penderfyniad yn cael ei wneud ar y mater o dan adran 9 neu 10.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r penderfyniad mewn cysylltiad â pherson ifanc nad yw'n cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

(4) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol a'i fod wedi ei fodloni—

(a) nad yw anghenion y plentyn neu'r person ifanc wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, a

(b) nad oes gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.

**14 Cynlluniau datblygu unigol: Byrddau Iechyd Lleol ac ymddiriedolaethau GIG**

(1) Os yw Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn cytuno, caiff cynllun datblygu unigol a gynhelir gan gorff llywodraethu neu awdurdod lleol ar gyfer plentyn neu berson ifanc bennu bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yn y cynllun i gael ei sicrhau gan y Bwrdd Iechyd Lleol hwnnw neu'r ymddiriedolaeth GIG hwnnw ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc.

(2) Rhaid i'r Bwrdd Iechyd Lleol neu'r ymddiriedolaeth GIG sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir mewn cynllun datblygu unigol o dan yr adran hon fel darpariaeth y mae wedi cytuno i'w sicrhau.

(3) Os yw'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys mewn perthynas â chynllun datblygu unigol, nid yw'r dyletswyddau a ganlyn yn gymwys i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir o dan yr adran hon—

(a) dyletswydd corff llywodraethu i sicrhau'r ddarpariaeth o dan adran 9(6) neu 10(5), neu

(b) dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau'r ddarpariaeth o dan adran 12(9)(a).

(4) Ni chaniateir i'r disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir mewn cynllun o dan yr adran hon fel darpariaeth y mae Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG wedi cytuno i'w sicrhau gael ei ddileu neu ei newid ond ar adolygiad o'r cynllun yn unol ag adran 15 ac â chytundeb neu ar gais y Bwrdd Iechyd Lleol neu'r ymddiriedolaeth GIG.

(5) Os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol neu'r ymddiriedolaeth GIG, ar adolygiad o'r cynllun, yn gofyn i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol ddileu neu newid y disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir mewn cynllun o dan yr adran hon fel darpariaeth y mae'r Bwrdd Iechyd Lleol neu'r ymddiriedolaeth GIG wedi cytuno i'w sicrhau, rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol gydymffurfio â'r cais.

(6) Nid oes dim byd yn yr adran hon yn effeithio ar bŵer Tribiwnlys Addysg Cymru i wneud gorchymyn o dan adran 40(3).

(7) Pan fo Tribiwnlys Addysg Cymru yn gorchymyn i gynllun datblygu unigol gael ei ddiwygio mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir mewn cynllun o dan yr adran hon fel darpariaeth y mae Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG wedi cytuno i'w sicrhau, nid yw'n ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ddiwygiedig oni bai bod y Bwrdd neu'r ymddiriedolaeth yn cytuno i wneud hynny.

(8) Rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo gynnal cynllun datblygu unigol bennu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG wedi cytuno i'w sicrhau o dan is-adran (7) yn y cynllun.

(9) Nid oes dim byd yn yr adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG ddarparu unrhyw beth na ellir ei ddarparu fel rhan o'r gwasanaeth iechyd cynhwysfawr yng Nghymru a barheir o dan adran 1(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42).

**15 Adolygu cynlluniau datblygu unigol**

(1) Rhaid i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo gynnal cynllun datblygu unigol ei adolygu—

(a) o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddir y cynllun yn unol ag adran 9, 10 neu 12, a

(b) o fewn pob cyfnod dilynol o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddir y cynllun yn unol â'r adran.

(2) Ond nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (1) yn gymwys os yw'r ddyletswydd yn is-adran (3) yn gymwys.

(3) Rhaid i gorff llywodraethu y mae'n ofynnol iddo gynnal cynllun datblygu unigol ei adolygu—

(a) o fewn y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddir gwybod am benderfyniad o dan adran 18(4) neu y rhoddir cynllun diwygiedig o dan adran 18(8), a

(b) o fewn pob cyfnod dilynol o 12 mis sy'n dechrau â'r dyddiad y rhoddir gwybod am y penderfyniad neu y rhoddir y cynllun diwygiedig yn unol â'r darpariaethau hynny.

(4) Rhaid i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol adolygu cynllun datblygu unigol y mae'n ofynnol iddo ei gynnal—

(a) os yw'r cynllun yn cynnwys darpariaeth ddysgu ychwanegol y mae Bwrdd Iechyd Lleol neu ymddiriedolaeth GIG wedi cytuno i'w sicrhau o dan adran 14, a

(b) os yw'r Bwrdd Iechyd Lleol neu'r ymddiriedolaeth GIG yn gofyn iddo adolygu'r cynllun.

(5) Caiff y corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol—

(a) adolygu'r cynllun ar unrhyw adeg, a

(b) diwygio'r cynllun yn dilyn adolygiad.

(6) Rhaid i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol y mae'n ofynnol iddo gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc adolygu'r cynllun os gofynnir iddo wneud hynny gan y plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc, oni bai ei fod yn ystyried nad oes angen adolygiad.

(7) Os yw corff llywodraethu neu awdurdod lleol yn diwygio cynllun datblygu unigol, rhaid iddo roi copi o'r cynllun diwygiedig—

(a) i'r plentyn neu i'r person ifanc;

(b) os yw'r cynllun yn gymwys i blentyn, i riant y plentyn.

**16 Perthynas cynlluniau datblygu unigol â dogfennau tebyg eraill**

Caiff corff llywodraethu neu awdurdod lleol—

(a) llunio, adolygu neu ddiwygio cynllun o dan yr adran hon ar yr un pryd ag y mae ef neu gorff arall yn llunio, yn adolygu neu'n diwygio dogfen arall yn achos y person o dan sylw, a

(b) cynnwys y ddogfen arall yn y cynllun.

*Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau a chynlluniau cyrff llywodraethu*

**17 Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau o dan adran 9(1)**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys—

(a) pan fo corff llywodraethu ysgol a gynhelir wedi gwneud penderfyniad ynghylch disgybl cofrestredig o dan adran 9(1) neu wedi gwrthod gwneud penderfyniad o dan yr adran honno, a

(b) pan fo'r plentyn neu'r person ifanc neu, yn achos plentyn, rhiant y plentyn yn gofyn i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc ail-ystyried y mater.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a oes gan y plentyn neu'r person ifanc anghenion dysgu ychwanegol.

(3) Cyn iddo wneud ei benderfyniad, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu am y cais a gwahodd sylwadau oddi wrth y corff llywodraethu.

(4) Mae is-adrannau (2) i (9) o adran 12 yn gymwys i benderfyniad o dan is-adran (2) fel pe bai'n benderfyniad o dan is-adran (1) o'r adran honno.

(5) Pan fo awdurdod lleol yn gwneud penderfyniad o dan is-adran (2) mae penderfyniad blaenorol y corff llywodraethu o dan adran 9(1) yn peidio â chael effaith.

**18 Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o gynlluniau a gynhelir o dan adran 9**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys—

(a) pan fo corff llywodraethu ysgol a gynhelir yn cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer disgybl cofrestredig o dan adran 9(3) neu (4), a

(b) pan fo'r plentyn neu'r person ifanc neu, yn achos plentyn, rhiant y plentyn yn gofyn i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc ailystyried y cynllun gyda golwg ar ei ddiwygio.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol ailystyried y cynllun a phenderfynu pa un ai i ddiwygio'r cynllun ai peidio.

(3) Cyn iddo wneud ei benderfyniad, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu am y cais a gwahodd sylwadau oddi wrth y corff llywodraethu.

(4) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu na ddylai'r cynllun gael ei ddiwygio rhaid iddo hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(5) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai'r cynllun gael ei ddiwygio rhaid iddo lunio cynllun diwygiedig a naill ai—

(a) cyfarwyddo'r corff llywodraethu i'w gynnal, neu

(b) arfer y pŵer yn adran 19(4) i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun.

(6) Os yw'r awdurdod lleol wedi ei fodloni na ellir diwallu anghenion rhesymol plentyn neu berson ifanc am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol oni bai ei fod hefyd yn sicrhau darpariaeth o'r math a grybwyllir yn adran 12(6), rhaid i'r awdurdod gynnwys disgrifiad o'r ddarpariaeth arall honno yn y cynllun diwygiedig.

(7) Os yw'r ddyletswydd yn is-adran (6) yn gymwys i awdurdod lleol, ni chaiff roi cyfarwyddyd o dan is-adran (5)(a).

(8) Rhaid i'r awdurdod lleol roi copi o'r cynllun diwygiedig—

(a) i'r corff llywodraethu,

(b) i'r plentyn neu'r person ifanc, ac

(c) yn achos plentyn, i riant y plentyn.

**19 Awdurdod lleol i gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynlluniau corff llywodraethu**

(1) Rhaid i awdurdod lleol benderfynu a ddylai gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal cynllun datblygu unigol a gynhelir gan gorff llywodraethu o dan adran 9 neu 10 ar gyfer plentyn neu berson ifanc y mae'r awdurdod yn gyfrifol amdano os gofynnir i'r awdurdod ystyried gwneud hynny gan—

(a) y corff llywodraethu,

(b) y plentyn neu'r person ifanc y mae'r cynllun yn gymwys iddo, neu

(c) yn achos plentyn, rhiant y plentyn.

(2) Pan fo corff llywodraethu yn gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn am y cais a gwahodd sylwadau.

(3) Pan fo plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn gwneud y cais, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu am y cais a gwahodd sylwadau oddi wrth y corff llywodraethu.

(4) Caiff awdurdod lleol benderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal cynllun a gynhelir gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir os yw'n penderfynu o dan adran 18(5) y dylai'r cynllun gael ei ddiwygio.

(5) Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc a'r corff llywodraethu am—

(a) penderfyniad o dan is-adran (1) neu (4), a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(6) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu cymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun—

(a) mae i'w drin fel pe bai'n cael ei gynnal gan yr awdurdod o dan adran 12 at ddibenion y Ddeddf hon, a

(b) nid yw'n ofynnol i'r corff llywodraethu ei gynnal,

o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad o dan is-adran (5).

*Peidio â chynnal cynlluniau*

**20 Peidio â chynnal cynlluniau datblygu unigol**

(1) Dim ond os nad oes angen cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc mwyach y caiff corff llywodraethu neu awdurdod lleol beidio â chynnal y cynllun hwnnw.

(2) Cyn i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol benderfynu peidio â chynnal cynllun ar gyfer plentyn neu berson ifanc, rhaid iddo hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn ei fod yn bwriadu gwneud penderfyniad o'r fath.

(3) Ar ôl i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol wneud ei benderfyniad, rhaid iddo hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(4) A rhaid i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir hefyd hysbysu'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn am ei hawl i ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y mater o dan adran 21.

**21 Ailystyriaeth gan awdurdodau lleol o benderfyniadau o dan adran 20**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys—

(a) pan fo plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc wedi ei hysbysu am benderfyniad corff llywodraethu ysgol a gynhelir o dan adran 20, a

(b) pan fo'r plentyn, rhiant y plentyn neu'r person ifanc yn gwneud cais o fewn cyfnod a ragnodir i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu'r person ifanc iddo benderfynu a ddylai dyletswydd y corff llywodraethu i gynnal y cynllun beidio â bod.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol benderfynu a ddylai dyletswydd y corff llywodraethu i gynnal y cynllun beidio â bod.

(3) Rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r corff llywodraethu a'r plentyn neu'r person ifanc ac, yn achos plentyn, rhiant y plentyn am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(4) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu y dylai'r cynllun gael ei gynnal, rhaid i'r corff llywodraethu barhau i gynnal y cynllun.

(5) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu na ddylai'r cynllun gael ei gynnal, caiff y corff llywodraethu beidio â chynnal y cynllun, yn ddarostyngedig i adran 22.

**22 Cyfyngiad ar beidio â chynnal cynllun er mwyn caniatáu ailystyriaeth neu apêl**

(1) Ni chaiff corff llywodraethu ysgol a gynhelir beidio â chynnal cynllun datblygu unigol oni bai bod is-adran (2) neu (3) yn gymwys.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r cyfnod a ragnodir o dan adran 21(1)(b) wedi dod i ben ac nid oes unrhyw gais wedi ei wneud o dan yr adran honno.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r awdurdod lleol wedi penderfynu o dan adran 21 na ddylai'r cynllun gael ei gynnal ac

(a) mae'r cyfnod a ragnodir o dan adran 41 y caniateir i apêl gael ei dwyn ynddo yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol wedi dod i ben, pan na fo apêl o'r fath wedi ei dwyn cyn diwedd y cyfnod hwnnw, neu

(b) y penderfynwyd yn llawn ar apêl, pan fo apêl wedi ei dwyn cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(4) Ni chaiff corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach neu awdurdod lleol beidio â chynnal cynllun datblygu unigol tan—

(a) ar ôl diwedd y cyfnod a ragnodir o dan adran 41 y caniateir i apêl gael ei dwyn ynddo yn erbyn penderfyniad i beidio â chynnal y cynllun, pan na fo apêl o'r fath wedi ei dwyn cyn diwedd y cyfnod hwnnw, neu

(b) ar ôl penderfynu'n llawn ar yr apêl, pan fo apêl wedi ei dwyn cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

**23 Rheoliadau ynghylch trosglwyddo cynlluniau datblygu unigol**

(1) Caiff rheoliadau ddarparu i'r ddyletswydd i gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer plentyn neu berson ifanc gael ei throsglwyddo—

(a) o un awdurdod lleol i awdurdod lleol arall;

(b) o gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach i gorff llywodraethu ysgol arall a gynhelir neu sefydliad arall yn y sector addysg bellach;

(c) o gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach i awdurdod lleol;

(d) o awdurdod lleol i gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon (er enghraifft)—

(a) gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol arall neu'r corff llywodraethu arall i gynnal y cynllun;

(b) trin y pethau a wneir gan yr awdurdod trosglwyddo mewn perthynas â'r cynllun fel pe baent wedi eu gwneud gan yr awdurdod arall neu'r corff llywodraethu arall.

**24 Cynllun datblygu unigol ar ôl pen-blwydd person ifanc yn 25 oed**

(1) Caiff corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach neu awdurdod lleol barhau i gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer person ifanc tan ddiwedd y flwyddyn academaidd pan fydd y person ifanc yn cyrraedd 25 oed.

(2) Yn yr adran hon, ystyr "blwyddyn academaidd" yw—

(a) mewn perthynas â pherson ifanc sy'n mynychu sefydliad yn y sector addysg bellach, gyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf, a

(b) mewn perthynas ag unrhyw berson ifanc arall, gyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar y diwrnod y mae cwrs addysg neu hyfforddiant y person ifanc yn dod i ben neu'r diwrnod cyn i'r person ifanc gyrraedd 26 oed (pa un bynnag sydd gynharaf).

*Swyddogaethau sy'n ymwneud â sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol*

**25 Dyletswyddau cyrff llywodraethu i helpu awdurdodau lleol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol**

(1) Pan fo gan blentyn neu berson ifanc sy'n ddisgybl cofrestredig mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru gynllun datblygu unigol sy'n cael ei gynnal gan awdurdod lleol, rhaid i'r corff llywodraethu gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc yn galw amdani.

(2) Pan fo gan berson ifanc sydd wedi ymrestru'n fyfyriwr mewn sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru gynllun datblygu unigol sy'n cael ei gynnal gan awdurdod lleol, rhaid i'r corff llywodraethu gymryd pob cam rhesymol i helpu'r awdurdod i sicrhau'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae anghenion dysgu ychwanegol y person ifanc yn galw amdani.

**26 Dyletswydd i dderbyn plant i sefydliadau a enwir**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw ysgol a gynhelir yng Nghymru wedi ei henwi mewn cynllun datblygu unigol a lunnir ar gyfer plentyn gan awdurdod lleol at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn i'r ysgol.

(2) Rhaid i gorff llywodraethu'r ysgol dderbyn y plentyn.

(3) Cyn enwi ysgol o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori—

(a) â chorff llywodraethu'r ysgol, a

(b) yn achos ysgol a gynhelir pan nad yr awdurdod lleol na'i chorff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgol, â'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle y mae'r ysgol.

(4) Ni chaiff awdurdod lleol enwi ysgol a gynhelir mewn cynllun datblygu unigol at ddiben sicrhau bod y plentyn yn cael ei dderbyn ond—

(a) os yw'r awdurdod wedi ei fodloni ei bod, er lles y plentyn, yn ofynnol i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir yn ei gynllun gael ei gwneud yn yr ysgol, a

(b) os yw'n briodol darparu addysg neu hyfforddiant i'r plentyn yn yr ysgol.

(5) Mae is-adran (2) yn cael effaith ni waeth beth fo unrhyw ddyletswydd a osodir ar gorff llywodraethu ysgol gan adran 1(6) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) (terfynau ar faint dosbarthiadau babanod).

(6) Nid yw is-adran (2) yn effeithio ar unrhyw bŵer i wahardd disgybl o ysgol.

(7) Yn yr adran hon, mae i "awdurdod derbyn" yr ystyr a roddir i "admissions authority" gan adran 88 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

**27 Dim pŵer i godi tâl am ddarpariaeth a sicrheir o dan y Ddeddf hon**

(1) Ni chaiff corff llywodraethu neu awdurdod lleol godi tâl ar blentyn, ar riant plentyn neu ar berson ifanc am unrhyw beth y mae rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol ei sicrhau ar gyfer plentyn neu berson ifanc o dan y Ddeddf hon.

(2) Nid yw plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc yn atebol i dalu unrhyw dâl a godir gan berson am unrhyw beth y mae rhaid i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol ei sicrhau ar gyfer plentyn neu berson ifanc o dan y Ddeddf hon.

**28 Dyletswyddau cyffredinol i sicrhau addysg a hyfforddiant ôl-16 ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol**

(1) Mae Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 33N (y cwricwlwm lleol: dehongli), yn y diffiniad o "institution" yn lle "a learning difficulty" hyd at y diwedd rhodder "additional learning needs (within the meaning given by the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2016);".

(3) Yn adran 33P (cymhwyso darpariaethau'r cwricwlwm lleol i fyfyrwyr sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig neu sydd ag anawsterau dysgu)—

(a) yn y pennawd, yn lle "learning difficulties" rhodder "additional learning needs";

(b) yn is-adran (3)(b)(ii), yn lle "a learning difficulty" rhodder "additional learning needs".

(4) Yn adran 41 (personau sydd ag anawsterau dysgu)—

(a) yn y pennawd yn lle "learning difficulties" rhodder "additional learning needs";

(b) yn is-adran (1)—

(i) ym mharagraff (a), yn lle "learning difficulties, and" rhodder "additional learning needs";

(ii) yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) the desirability of facilities being available which would assist the discharge of duties under the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2016";

(c) hepgorer is-adrannau (2), (3) a (4);

(d) yn lle is-adran (5) rhodder—

"(5A) In this Part, "additional learning needs" has the meaning given by section 2 of the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2016.";

(e) hepgorer is-adran (6).

(5) Mae adran 140 (asesiadau sy'n ymwneud ag anawsterau dysgu) wedi ei diddymu.

*Darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn mathau penodol o ysgol neu sefydliad arall*

**29 Dyletswydd i ffafrio addysg i blant mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir**

(1) Rhaid i awdurdod lleol sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â phlentyn sydd o oedran ysgol gorfodol ac sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a ddylai gael ei addysgu mewn ysgol sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir oni bai bod hynny'n anghydnaws—

(a) â dymuniadau rhiant y plentyn, neu

(b) â'r ddarpariaeth o addysg effeithlon i blant arall.

(2) Ni chaiff awdurdod lleol ddibynnu ar yr eithriad yn is-adran (1)(b) oni bai nad oes unrhyw gamau rhesymol y gallai'r awdurdod eu cymryd i atal yr anghydnawsedd.

(3) Nid yw is-adran (1) yn atal plentyn rhag cael ei addysgu mewn—

(a) ysgol annibynnol, neu

(b) ysgol a gymeradwywyd o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56),

os telir y gost ac eithrio gan awdurdod lleol.

(4) Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer amgylchiadau pan nad yw is-adran (1) yn gymwys.

**30 Darpariaeth ddysgu ychwanegol ac eithrio mewn ysgolion**

(1) Caiff awdurdod lleol drefnu i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir mewn cynllun datblygu unigol y mae'n ei gynnal ar gyfer plentyn, neu unrhyw ran o'r ddarpariaeth honno, gael ei gwneud mewn man ac eithrio mewn ysgol.

(2) Ond ni chaiff awdurdod lleol wneud hynny ond os yw wedi ei fodloni y byddai'n amhriodol i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol gael ei gwneud mewn ysgol.

**31 Diwygio'r gofynion cofrestru ar gyfer ysgolion annibynnol yng Nghymru**

(1) Mae Deddf Addysg 2002 (p. 32) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 158 (cofrestrau), ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

> "(4) The Welsh Ministers must publish a list of the schools included in the register of independent schools in Wales, as amended from time to time.
>
> (5) If the Welsh Ministers have been provided with the necessary information by the proprietor of the school, the published list must specify the type or types of additional learning provision made by a school on the list for pupils with additional learning needs (if any)."

(3) Yn adran 160 (ceisiadau i gofrestru) yn is-adran (2), yn lle paragraff (e), rhodder—

> "(e) the type or types of additional learning provision made by the school for pupils with additional learning needs (if any)."

**32 Amodau sy'n gymwys i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn ysgolion annibynnol**

(1) Ni chaiff awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon i sicrhau bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei addysgu mewn ysgol annibynnol yng Nghymru oni bai—

(a) bod yr ysgol wedi ei chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru, a

(b) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni y gall yr ysgol wneud darpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cyfateb i anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc a ddisgrifir yn ei gynllun datblygu unigol.

(2) Ni chaiff awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon i sicrhau bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei addysgu mewn sefydliad addysgol annibynnol yn Lloegr oni bai—

(a) bod y sefydliad wedi ei gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr, a

(b) bod yr awdurdod lleol wedi ei fodloni y gall y sefydliad wneud darpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cyfateb i anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc a ddisgrifir yn ei gynllun datblygu unigol.

(3) Yn yr adran hon, mae i "sefydliad addysgol annibynnol" yr ystyr a roddir i "independent educational institution" gan Bennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25).

**33 Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr ("y rhestr") at ddiben is-adran (3).

(2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r rhestr, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(3) Dim ond os yw sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr wedi ei gofnodi ar y rhestr y caiff awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon i sicrhau addysg neu hyfforddiant ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn y sefydliad hwnnw.

(4) Dim ond ar gais perchennog sefydliad y caiff Gweinidogion Cymru gynnwys y sefydliad hwnnw ar y rhestr.

(5) Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer—

(a) cynnwys y rhestr;

(b) y gofynion y mae rhaid cydymffurfio â hwy fel amod o gynnwys y sefydliad ar y rhestr;

(c) y gofynion y mae rhaid cydymffurfio â hwy tra bo'r sefydliad ar y rhestr (gan gynnwys y gofynion o ran cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i drefniadau yn y sefydliad ac i newid trefniadau o'r fath);

(d) dileu'r sefydliad oddi ar y rhestr;

(e) yr hawl i berchenogion sefydliadau apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau—

(i) i wrthod rhestru sefydliad;

(ii) i ddileu sefydliad oddi ar y rhestr;

(iii) i beidio â chymeradwyo trefniadau yn y sefydliad neu i beidio â chymeradwyo newid iddynt;

(f) esemptiadau o'r gwaharddiad yn is-adran (3).

(6) Yn yr adran hon, ystyr "sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol" yw sefydliad sy'n darparu addysg neu hyfforddiant i bersonau sydd dros yr oedran ysgol gorfodol ac sydd wedi ei drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant o'r fath i bersonau ag anghenion dysgu ychwanegol, ac—

(a) nad yw'n sefydliad o fewn y sector addysg bellach,

(b) nad yw'n ysgol annibynnol sydd ar y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru (a gedwir o dan adran 158 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32)),

(c) nad yw'n sefydliad addysgol annibynnol (o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 (p. 25)), sydd wedi ei gynnwys ar y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr (a gedwir o dan adran 95 o'r Ddeddf honno), neu

(d) nad yw'n Academi 16 i 19.

**34 Diddymu cymeradwyaeth i ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru**

(1) Mae Deddf Addysg 1996 (p. 56) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 337A (dehongli'r Bennod) hepgorer y diffiniad o "the appropriate national authority".

(3) Yn adran 342 (cymeradwyaeth i ysgolion arbennig nas cynhelir)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) yn lle "appropriate national authority" rhodder "Secretary of State", a

(ii) ar ôl "school", y tro cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder "in England";

(b) yn is-adran (5)(a), yn lle "appropriate national authority" rhodder "Secretary of State";

(c) hepgorer is-adran (6).

**35 Diddymu cymeradwyaeth i ysgolion annibynnol yng Nghymru**

Mae adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 (cymeradwyo ysgolion annibynnol fel rhai sy'n addas i dderbyn plant â datganiadau anghenion addysgol arbennig) wedi ei diddymu.

**36 Darpariaeth ddysgu ychwanegol y tu allan i Gymru a Lloegr**

Ni chaiff awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon i wneud trefniadau i blentyn neu berson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol fynychu sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr oni bai bod y sefydliad wedi ei drefnu i wneud darpariaeth ddysgu ychwanegol sy'n cyfateb i anghenion dysgu ychwanegol y plentyn neu'r person ifanc a ddisgrifir yn ei gynllun datblygu unigol.

*Anghytundebau ac apelau*

**37 Osgoi a datrys anghytundebau**

(1) Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau gyda golwg ar osgoi a datrys anghytundebau rhwng—

(a) cyrff addysg, a

(b) plant neu bobl ifanc y mae'r awdurdod yn gyfrifol amdanynt, neu yn achos plant o'r fath, eu rhieni,

ynghylch arfer gan gyrff addysg eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.

(2) Rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau gyda golwg ar osgoi a datrys anghytundebau rhwng—

(a) perchenogion sefydliadau perthnasol, a

(b) plant neu bobl ifanc y mae'r awdurdod yn gyfrifol amdanynt ac sydd ag anghenion dysgu ychwanegol neu, yn achos plant o'r fath, eu rhieni,

ynghylch y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a wneir ar gyfer plant neu bobl ifanc.

(3) Rhaid i'r trefniadau o dan is-adrannau (1) a (2) gynnwys darpariaeth i bartïon mewn anghytundeb gael mynediad at help i'w ddatrys oddi wrth bersonau sy'n annibynnol ar y partïon.

(4) Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau y mae'n ystyried eu bod yn briodol i wneud y trefniadau o dan yr adran hon yn hysbys i—

(a) plant a phobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt;

(b) rhieni plant y mae'n gyfrifol amdanynt;

(c) penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion y mae'n eu cynnal;

(d) personau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

(5) Rhaid i awdurdod lleol hybu'r defnydd o'r trefniadau a wneir o dan yr adran hon.

(6) Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau y mae'n ystyried eu bod yn briodol er mwyn hysbysu plant, eu rhieni a phobl ifanc nad yw'r trefniadau a wneir o dan yr adran hon yn effeithio ar unrhyw hawliau a all fod ganddynt i apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru.

(7) Yn yr adran hon, ystyr "corff addysg" yw unrhyw un o'r canlynol—

(a) corff llywodraethu ysgol a gynhelir;

(b) corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach;

(c) awdurdod lleol.

(8) Yn yr adran hon ystyr "sefydliad perthnasol" yw—

(a) ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;

(b) sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;

(c) sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol ar y rhestr a gynhelir o dan adran 33;

(d) ysgol annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr;

(e) ysgol arbennig nas cynhelir;

(f) Academi.

**38 Gwasanaethau eirioli annibynnol**

(1) Rhaid i awdurdod lleol—

(a) gwneud trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau eirioli annibynnol ar gyfer y plant a'r pobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt,

(b) atgyfeirio unrhyw blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol i ddarparwr gwasanaeth eirioli annibynnol, a

(c) atgyfeirio unrhyw berson sy'n gyfaill achos i blentyn neu berson ifanc y mae'n gyfrifol amdano ac sy'n gofyn am wasanaethau eirioli annibynnol i ddarparwr eirioli annibynnol.

(2) Yn yr adran hon ystyr "gwasanaethau eirioli annibynnol" yw cyngor a chymorth (drwy gynrychiolaeth neu fel arall) i blentyn, person ifanc neu gyfaill achos—

(a) sy'n gwneud, neu sy'n bwriadu gwneud, apêl i Dribiwnlys Addysg Cymru o dan y Ddeddf hon,

(b) sy'n ystyried pa un ai i apelio i'r Tribiwnlys, neu

(c) sy'n cymryd rhan, neu sy'n bwriadu cymryd rhan, mewn trefniadau a wneir o dan adran 37.

(3) Wrth wneud trefniadau o dan yr adran hon, rhaid i awdurdod lleol roi sylw i'r egwyddor bod rhaid i unrhyw wasanaethau a ddarperir o dan y trefniadau fod yn annibynnol ar unrhyw berson sydd—

(a) yn destun apêl i'r Tribiwnlys, neu

(b) yn ymwneud ag ymchwilio i apêl o'r fath neu ddyfarnu arni.

(4) Caiff y trefniadau gynnwys darpariaeth i daliadau gael eu gwneud i unrhyw berson, neu mewn perthynas ag unrhyw berson, sy'n cyflawni swyddogaethau yn unol â'r trefniadau a wneir o dan yr adran hon.

(5) Rhaid i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i wneud y trefniadau o dan yr adran hon yn hysbys i—

(a) plant a phobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt,

(b) rhieni plant o'r fath,

(c) penaethiaid a chyrff llywodraethu'r ysgolion y mae'n eu cynnal,

(d) cyfeillion achos i blant y mae'n gyfrifol amdanynt, ac

(e) personau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

**39 Cyfeillion achos**

(1) Caiff rheoliadau ddarparu i blentyn neu berson ifanc gael person (a elwir yn "cyfaill achos")—

(a) i gyflwyno sylwadau ar ran y plentyn neu'r person ifanc gyda golwg ar osgoi a datrys anghytundebau ynghylch arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon gan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru, cyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu awdurdodau lleol, a

(b) i wneud unrhyw beth y caiff plentyn neu berson ifanc ei wneud neu y mae rhaid i blentyn neu berson ifanc ei wneud o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon ar ran y plentyn neu'r person ifanc.

(2) Rhaid i gyfaill achos—

(a) gweithredu mewn modd sy'n deg ac yn gymwys,

(b) peidio â chael buddiant sy'n groes i fuddiannau'r plentyn neu'r person ifanc,

(c) sicrhau bod yr holl gamau a gymerir a'r holl benderfyniadau a wneir gan y cyfaill achos yn cael eu gwneud er budd y plentyn neu'r person ifanc, a

(d) ystyried safbwyntiau'r plentyn neu safbwyntiau'r person ifanc.

(3) Caiff rheoliadau a wneir o dan yr adran hon (ymhlith pethau eraill)—

(a) rhoi swyddogaethau i Dribiwnlys Addysg Cymru;

(b) gwneud darpariaeth ynghylch gweithdrefnau mewn perthynas â chyfeillion achos;

(c) gwneud darpariaeth ynghylch penodi a diswyddo cyfeillion achos;

(d) pennu'r amgylchiadau pan gaiff person neu pan na chaiff person weithredu fel cyfaill achos;

(e) pennu'r amgylchiadau pan fydd rhaid i blentyn neu berson ifanc gael cyfaill achos;

(f) pennu gofynion pellach mewn cysylltiad ag ymddygiad cyfeillion achos;

(g) cymhwyso unrhyw ddeddfiad gydag addasiadau at ddiben galluogi cyfaill achos i wneud y pethau y caiff plentyn neu berson ifanc eu gwneud neu y mae rhaid i blentyn neu berson ifanc eu gwneud o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon, gan gynnwys, er enghraifft, darpariaeth i gyfeiriadau at blentyn neu berson ifanc gael eu darllen fel cyfeiriadau at, neu fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at, gyfaill achos.

**40 Apelau**

(1) Dim ond i'r canlynol y mae'r adran hon yn gymwys—

(a) penderfyniadau corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu awdurdod lleol sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdano, a

(b) cynlluniau datblygu unigol a lunnir ac a gynhelir gan gorff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu awdurdod lleol sy'n ymwneud â phlentyn neu berson ifanc y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdano.

(2) Caiff plentyn, rhiant plentyn neu berson ifanc, apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn y materion a ganlyn—

(a) penderfyniad gan gorff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru o dan adran 10 neu awdurdod lleol o dan adran 12 neu 17 ynghylch a oes gan berson anghenion dysgu ychwanegol;

(b) yn achos person ifanc, penderfyniad gan awdurdod lleol o dan adran 12(3)(c)(ii) ynghylch a yw'n angenrheidiol llunio a chynnal cynllun datblygu unigol;

(c) y disgrifiad o anghenion dysgu ychwanegol person mewn cynllun datblygu unigol;

(d) y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cynllun datblygu unigol neu'r ffaith nad yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cynllun;

(e) mae'r ysgol wedi ei henwi mewn cynllun datblygu unigol at ddiben adran 26;

(f) os nad oes ysgol wedi ei henwi mewn cynllun datblygu unigol at ddiben adran 26, y ffaith honno;

(g) penderfyniad i beidio â chymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynllun datblygu unigol yn dilyn cais i ystyried gwneud hynny o dan adran 19;

(h) penderfyniad i beidio â diwygio cynllun datblygu unigol o dan adran 18;

(i) penderfyniad i beidio â chynnal cynllun datblygu unigol.

(3) Ar apêl, caiff Tribiwnlys Addysg Cymru—

(a) gwrthod yr apêl;

(b) gorchymyn bod gan y person, neu nad oes gan y person, anghenion dysgu ychwanegol o fath a bennir yn y gorchymyn;

(c) gorchymyn i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol ddiwygio cynllun datblygu unigol fel a bennir yn y gorchymyn;

(d) gorchymyn i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol barhau i gynnal cynllun datblygu unigol (gyda diwygiadau neu hebddynt);

(e) gorchymyn i awdurdod lleol gymryd drosodd y cyfrifoldeb am gynnal cynllun datblygu unigol;

(f) anfon y cais yn ôl i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Tribiwnlys, a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gwahanol.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch apelau i Dribiwnlys Addysg Cymru, gan gynnwys, er enghraifft, darpariaeth—

(a) ynghylch gwneud apelau a phenderfynu arnynt;

(b) sy'n rhoi pwerau pellach i'r Tribiwnlys wrth benderfynu ar apêl;

(c) ar gyfer apelau heb wrthwynebiad.

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (4)(b) gynnwys darpariaeth sy'n rhoi pŵer i'r Tribiwnlys, wrth benderfynu ar apêl yn erbyn mater, i wneud argymhellion mewn cysylltiad â materion eraill (gan gynnwys materion na chaniateir i apêl gael ei dwyn yn eu herbyn).

(6) Mae person yn cyflawni trosedd os yw heb esgus rhesymol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad—

(a) mewn cysylltiad â darganfod neu arolygu dogfennau, neu

(b) i fod yn bresennol i roi tystiolaeth a dangos dogfennau,

pan fo'r gofyniad hwnnw wedi ei osod gan reoliadau o dan adran 41 mewn perthynas ag apêl o dan yr adran hon neu drwy reoliadau o dan is-adran (4).

(7) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (6) yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

**41 Y weithdrefn ar apelau**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) cychwyn apêl o dan y Ddeddf hon, a

(b) trafodion Tribiwnlys Addysg Cymru ar apêl o dan y Ddeddf hon.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) gynnwys darpariaeth—

(a) o ran y cyfnod y mae apelau i gael eu cychwyn ynddo a'r dull ar gyfer apelio;

(b) pan fo awdurdodaeth y Tribiwnlys yn cael ei harfer gan fwy nag un tribiwnlys—

(i) i benderfynu pa dribiwnlys sydd i wrando ar unrhyw apêl, a

(ii) i drosglwyddo trafodion o un tribiwnlys i dribiwnlys arall;

(c) ar gyfer galluogi i unrhyw swyddogaethau sy'n ymwneud â materion rhagarweiniol i apêl neu faterion sy'n gysylltiedig ag apêl gael eu cyflawni gan y Llywydd neu gan y cadeirydd cyfreithiol;

(d) i wrandawiadau gael eu cynnal yn absenoldeb aelod ac eithrio'r cadeirydd cyfreithiol;

(e) o ran y personau a gaiff ymddangos ar ran y partïon;

(f) ar gyfer rhoi unrhyw hawliau o ran datgelu neu arolygu dogfennau neu o ran manylion pellach a roddir gan y llys sirol;

(g) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau fod yn bresennol i roi tystiolaeth a dangos dogfennau;

(h) ar gyfer awdurdodi i lwon gael eu gweinyddu ar gyfer tystion;

(i) ar gyfer penderfynu ar apelau heb wrandawiad o dan amgylchiadau rhagnodedig,

(j) o ran tynnu apelau yn ôl;

(k) o ran dyfarnu costau neu dreuliau;

(l) ar gyfer asesu neu fel arall setlo unrhyw gostau neu dreuliau (ac, yn benodol, ar gyfer galluogi i gostau neu dreuliau o'r fath gael eu hasesu yn y llys sirol);

(m) ar gyfer cofrestru penderfyniadau a gorchmynion a chael prawf ohonynt;

(n) ar gyfer galluogi'r Tribiwnlys i adolygu ei benderfyniadau, neu i ddirymu neu amrywio ei orchmynion, o dan amgylchiadau rhagnodedig;

(o) ar gyfer galluogi'r Tribiwnlys i ohirio trafodion;

(p) ar gyfer ychwanegu a disodli partïon;

(q) ar gyfer galluogi camau i ddelio ag apelau gan bersonau gwahanol gyda'i gilydd;

(r) i apêl o dan y Rhan hon gael ei gwrando, o dan amgylchiadau a ragnodir yn y rheoliadau, gydag hawliad o dan Bennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15).

(3) Rhaid i drafodion gerbron y Tribiwnlys gael eu cynnal yn breifat, ac eithrio o dan amgylchiadau rhagnodedig.

(4) Nid yw Rhan 1 o Ddeddf Cymrodeddu 1996 (p. 23) yn gymwys i unrhyw drafodion gerbron y Tribiwnlys ond caiff rheoliadau wneud darpariaeth sy'n cyfateb i unrhyw ddarpariaeth yn y Rhan honno.

**42 Cydymffurfedd â gorchmynion**

Os yw Tribiwnlys Addysg Cymru yn gwneud gorchymyn, rhaid i'r corff llywodraethu neu'r awdurdod lleol o dan sylw gydymffurfio â'r gorchymyn cyn diwedd y cyfnod rhagnodedig sy'n dechrau â'r dyddiad y caiff ei wneud.

**43 Lwfansau am fod yn bresennol yn Nhribiwnlys Addysg Cymru**

Caiff Gweinidogion Cymru dalu lwfansau at ddiben presenoldeb personau yn Nhribiwnlys Addysg Cymru neu mewn cysylltiad â hynny.

**44 Apelau o Dribiwnlys Addysg Cymru i'r Uwch Dribiwnlys**

(1) Caiff parti i unrhyw drafodion o dan adran 40 neu 62 gerbron Tribiwnlys Addysg Cymru apelio i'r Uwch Dribiwnlys ar unrhyw bwynt cyfreithiol sy'n deillio o benderfyniad a wneir gan Dribiwnlys Addysg Cymru yn y trafodion hynny.

(2) Dim ond os yw Tribiwnlys Addysg Cymru neu'r Uwch Dribiwnlys, ar gais a wneir gan y parti o dan sylw, wedi rhoi ei ganiatâd y caniateir i apêl gael ei dwyn o dan is-adran (1).

(3) Mae adran 12 o Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p. 15) (trafodion ar apêl i'r Uwch Dribiwnlys) yn gymwys mewn perthynas ag apelau i'r Uwch Dribiwnlys o dan yr adran hon fel y mae'n gymwys mewn perthynas ag apelau iddo o dan adran 11 o'r Ddeddf honno, ond fel pe bai cyfeiriadau at y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn gyfeiriadau at Dribiwnlys Addysg Cymru.

*Atodol*

**45 Dyletswydd i gadw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol o dan adolygiad**

(1) Rhaid i awdurdod lleol gadw o dan adolygiad y trefniadau a wneir gan yr awdurdod a chan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ei ardal ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y graddau y mae'r trefniadau y cyfeirir atynt yn is-adran (1) yn ddigonol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y plant a'r bobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt, gan roi sylw i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a all gael ei threfnu'n rhesymol gan eraill.

(3) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori ag unrhyw bersonau, ac ar unrhyw adegau, y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

**46 Cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol**

(1) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys i'r cyrff a ganlyn—

(a) corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru;

(b) corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru.

(2) Rhaid i'r corff ddynodi aelod o'i staff (a elwir yn "cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol") i gael y cyfrifoldeb am gydlynu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr (yn ôl y digwydd) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

(3) Caiff rheoliadau—

(a) ei gwneud yn ofynnol i gyrff sicrhau bod gan gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol gymwysterau rhagnodedig neu brofiad rhagnodedig (neu'r ddau);

(b) rhoi swyddogaethau i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â darparu ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr (yn ôl y digwydd) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**47 Swyddog meddygol neu glinigol dynodedig**

(1) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ddynodi swyddog i fod â chyfrifoldeb am gydlynu swyddogaethau'r Bwrdd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

(2) Rhaid i'r person a ddynodir fod—

(a) yn ymarferydd meddygol cofrestredig, neu

(b) yn nyrs gofrestredig neu'n weithiwr iechyd proffesiynol arall.

(3) Rhaid i'r Bwrdd ddynodi person y mae'n ystyried ei fod yn meddu ar y cymwysterau a'r profiad addas o ran darparu gofal iechyd i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

(4) Pan fo'r person sydd wedi ei ddynodi yn ymarferydd meddygol cofrestredig, mae'r swyddog i gael ei alw'n swyddog meddygol dynodedig.

(5) Pan fo'r person sydd wedi ei ddynodi yn nyrs gofrestredig neu'n weithiwr iechyd proffesiynol arall, mae'r swyddog i gael ei alw'n swyddog clinigol dynodedig.

**48 Swyddogaethau cyrff iechyd i hysbysu rhieni etc.**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo corff iechyd a grybwyllir yn is-adran (2), yng nghwrs arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd o dan oedran ysgol gorfodol y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdano, yn ffurfio barn bod gan y plentyn, neu y mae'n debygol bod gan y plentyn, anghenion dysgu ychwanegol.

(2) Y cyrff iechyd yw—

(a) Bwrdd Iechyd Lleol;

(b) ymddiriedolaeth GIG;

(c) grŵp comisiynu clinigol;

(d) ymddiriedolaeth sefydledig GIG.

(3) Rhaid i'r corff iechyd hysbysu rhiant y plentyn am ei farn ac am ei bŵer yn is-adran (4).

(4) Ar ôl rhoi cyfle i'r rhiant drafod barn y corff iechyd â swyddog o'r corff, caiff y corff iechyd ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol priodol os yw'r corff iechyd wedi ei fodloni y byddai gwneud hynny er lles pennaf y plentyn.

(5) Os yw'r corff iechyd o'r farn bod sefydliad gwirfoddol penodol yn debygol o allu rhoi cyngor neu gymorth arall i'r rhiant mewn cysylltiad â'r anghenion dysgu ychwanegol a all fod gan y plentyn, rhaid iddo hysbysu'r rhiant yn unol â hynny.

**49 Dyletswyddau cyrff cyhoeddus penodol i ddarparu gwybodaeth a help arall**

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw awdurdod lleol yn gofyn i berson a grybwyllir yn is-adran (4) arfer swyddogaethau'r person i ddarparu i'r awdurdod wybodaeth neu help arall, sy'n ofynnol ganddo at ddiben arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.

(2) Rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais oni bai bod y person neu'r corff yn ystyried y byddai gwneud hynny—

(a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r person ei hun, neu

(b) fel arall yn cael effaith andwyol ar arfer swyddogaethau'r person.

(3) Rhaid i berson sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o dan is-adran (1) roi rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad i'r awdurdod lleol a wnaeth y cais.

(4) Y personau yw—

(a) awdurdod lleol arall;

(b) awdurdod lleol yn Lloegr;

(c) corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;

(d) corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;

(e) Academi;

(f) tîm troseddwyr ifanc ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;

(g) y person a chanddo ofal am unrhyw lety ieuenctid priodol yng Nghymru neu yn Lloegr;

(h) Bwrdd Iechyd Lleol;

(i) ymddiriedolaeth GIG;

(j) Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;

(k) grŵp comisiynu clinigol;

(l) ymddiriedolaeth sefydledig GIG.

(5) Caiff rheoliadau ddarparu pan fo person o dan ddyletswydd i gydymffurfio â chais o dan yr adran hon, fod rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais o fewn cyfnod rhagnodedig, oni bai bod eithriad rhagnodedig yn gymwys.

(6) Yn yr adran hon, ystyr "tîm troseddwyr ifanc" yw tîm a sefydlwyd o dan adran 39 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 (p. 37).

**50 Hawl awdurdod lleol i gael mynediad i fangreoedd ysgolion a sefydliadau eraill**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn cynnal cynllun datblygu unigol o dan y Rhan hon ar gyfer plentyn neu berson ifanc.

(2) Mae hawl gan berson sydd wedi ei awdurdodi gan yr awdurdod lleol i fynd i mewn ar unrhyw adeg resymol i fangre sefydliad a restrir yn is-adran (3) lle y darperir addysg a hyfforddiant i'r plentyn neu'r person ifanc os yw mynediad i'r fangre yn angenrheidiol at ddiben arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.

(3) Y sefydliadau yw—

(a) ysgol annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr;

(b) ysgol a gynhelir yn ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru neu yn Lloegr;

(c) sefydliad o fewn y sector addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;

(d) Academi;

(e) ysgol arbennig nas cynhelir;

(f) sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr o dan adran 33.

**51 Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol**

(1) Caiff rheoliadau ddarparu i awdurdod lleol gyflenwi nwyddau neu wasanaethau i—

(a) person sy'n arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, neu

(b) person sy'n gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.

(2) Caiff y rheoliadau, ymhlith pethau eraill, ddarparu ar gyfer y telerau a'r amodau y caniateir i nwyddau a gwasanaethau gael eu cyflenwi yn unol â hwy.

**52 Rheoliadau ynghylch datgelu a defnyddio gwybodaeth**

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch datgelu neu ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir wrth arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon a Rhan 3.

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1), er enghraifft—

(a) pennu personau pellach y mae rhaid darparu copïau ysgrifenedig o gynllun iddynt (gan gynnwys, mewn achosion penodedig, darparu copïau heb gydsyniad y person y mae'r cynllun yn ymwneud ag ef neu, yn achos plentyn, rhiant y person hwnnw);

(b) gwneud darpariaeth ynghylch datgelu cynlluniau;

(c) gwneud darpariaeth ynghylch defnyddio'r wybodaeth a gesglir wrth lunio a chynnal cynlluniau.

**53 Rhieni heb alluedd**

(1) Caiff rheoliadau gymhwyso unrhyw ddeddfiad gydag addasiadau at ddiben—

(a) galluogi rhywun ac eithrio rhiant plentyn i wneud y pethau y caiff y rhiant eu gwneud neu y mae rhaid i'r rhiant eu gwneud o dan neu yn rhinwedd y Ddeddf hon ar ran y rhiant pan na fo gan y rhiant alluedd ar yr adeg berthnasol;

(b) gwneud darpariaeth bellach y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol mewn cysylltiad â darpariaeth a wneir o dan baragraff (a).

(2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1), er enghraifft, gynnwys darpariaeth—

(a) i gyfeiriadau at riant plentyn gael eu darllen fel cyfeiriadau at, neu fel pe baent yn cynnwys cyfeiriadau at, gynrychiolydd y rhiant;

(b) i addasiadau gael effaith er gwaethaf adran 27(1)(g) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 (p. 9) (nid yw'r Ddeddf yn caniatáu i benderfyniadau ar gyflawni cyfrifoldebau rhiant mewn materion nad ydynt yn ymwneud ag eiddo plentyn gael eu gwneud ar ran person).

(3) Ystyr "yr adeg berthnasol" yw'r adeg, o dan y deddfiad o dan sylw, pan fo'n ofynnol, neu pan ganiateir, i rywbeth gael ei wneud gan y rhiant neu'r person ifanc neu mewn perthynas â'r rhiant.

(4) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) at fod heb alluedd yn gyfeiriad at fod heb alluedd o fewn yr ystyr a roddir i "lacking capacity" yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005.

(5) Ystyr "cynrychiolydd", mewn perthynas â rhiant, yw—

(a) dirprwy a benodir gan y Llys Gwarchod o dan adran 16(2)(b) o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i wneud penderfyniadau ar ran y rhiant mewn perthynas â materion o fewn y Rhan hon;

(b) rhoddai atwrneiaeth arhosol (o fewn yr ystyr a roddir i "lasting power of attorney" yn adran 9 o'r Ddeddf honno) a benodir gan y rhiant i wneud penderfyniadau ar ei ran mewn perthynas â materion o fewn y Rhan hon;

(c) twrnai y mae atwrneiaeth barhaus (o fewn yr ystyr a roddir i "enduring power of attorney" yn Atodlen 4 i'r Ddeddf honno) wedi ei breinio ynddo—

(i) pan fo'r atwrneiaeth wedi ei chreu gan y rhiant, a

(ii) pan fo'r atwrneiaeth wedi ei chofrestru yn unol â pharagraffau 4 a 13 o'r Atodlen honno neu pan fo cais i gofrestru'r atwrneiaeth wedi ei wneud.

*Cyffredinol*

**54 Rhoi hysbysiad etc. o dan y Ddeddf hon**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo darpariaeth yn y Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol (ar ba delerau bynnag) i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol, neu'n awdurdodi (ar ba delerau bynnag) corff llywodraethu neu awdurdod lleol i—

(a) hysbysu person am rywbeth, neu

(b) rhoi dogfen i berson (gan gynnwys hysbysiad neu gopi o ddogfen).

(2) Caniateir i'r hysbysiad gael ei roi neu'r ddogfen gael ei rhoi i'r person o dan sylw—

(a) drwy ddanfon yr hysbysiad neu'r ddogfen i'r person,

(b) drwy anfon yr hysbysiad neu'r ddogfen drwy'r post i gyfeiriad cywir y person,

(c) drwy adael yr hysbysiad neu'r ddogfen yng nghyfeiriad cywir y person, neu

(d) os yw'r amodau yn is-adran (3) wedi eu bodloni, drwy anfon yr hysbysiad neu'r ddogfen yn electronig.

(3) Ni chaiff corff llywodraethu neu awdurdod lleol anfon hysbysiad neu ddogfen at berson yn electronig ond os yw'r gofynion a ganlyn wedi eu bodloni—

(a) rhaid i'r person y mae'r hysbysiad i gael ei roi iddo neu y mae'r ddogfen i gael ei rhoi iddo—

(i) fod wedi nodi wrth y person perthnasol barodrwydd i gael yr hysbysiad neu'r ddogfen yn electronig, a

(ii) fod wedi darparu i'r person perthnasol gyfeiriad sy'n addas at y diben hwnnw, a

(b) rhaid i'r person perthnasol anfon yr hysbysiad neu'r ddogfen i'r cyfeiriad hwnnw.

(4) At ddibenion yr adran hon ac adran 7 o Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30) (cyfeiriadau at gyflwyno drwy'r post) wrth ei chymhwyso at yr adran hon, cyfeiriad cywir person yw cyfeiriad hysbys diwethaf y person.

(5) Mae hysbysiad neu ddogfen a roddir i berson drwy ei adael neu ei gadael yng nghyfeiriad cywir y person i gael ei drin neu ei thrin at ddibenion y Rhan hon fel pe bai wedi ei roi neu ei rhoi ar yr adeg y gadawyd yr hysbysiad neu'r ddogfen yn y cyfeiriad hwnnw.

**55 Personau y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdanynt**

(1) At ddibenion y Ddeddf hon, mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc—

(a) os yw'n preswylio fel arfer yn ardal yr awdurdod, neu

(b) os nad oes ganddo breswylfa arferol, ond ei fod yn preswylio yn ardal yr awdurdod am y tro.

(2) Ond mae hyn yn ddarostyngedig i ddarpariaeth mewn rheoliadau o dan is-adran (3).

(3) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth bellach ynghylch y personau y mae awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol amdanynt at ddibenion y Ddeddf hon.

## RHAN 3

## PLANT SY'N DERBYN GOFAL A PHERSONAU SY'N CAEL EU CADW'N GAETH

*Plant sy'n derbyn gofal*

### 56 Rheoliadau ynghylch plant sy'n derbyn gofal a phersonau a fu gynt yn derbyn gofal

(1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch—

(a) cefnogaeth oddi wrth awdurdodau lleol i hybu cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal ganddo a phersonau a fu gynt yn derbyn gofal, a

(b) y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol a phersonau a fu gynt yn derbyn gofal ac sydd ag, neu a all fod ag, anghenion dysgu ychwanegol.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad.

(3) Yn yr adran hon—

ystyr "personau a fu gynt yn derbyn gofal" ("*persons formerly looked after*") yw personau a fu, ond nid ydynt mwyach, yn blant a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol (gan gynnwys personau a oedd yn derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 (p. 41) cyn i Ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddod i rym);

ystyr "plant sy'n derbyn gofal" ("*children looked after*") yw plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol at ddibenion Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4).

*Personau sy'n cael eu cadw'n gaeth*

### 57 Ystyr "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" a thermau allweddol eraill

(1) At ddibenion y Rhan hon—

mae i "awdurdod cartref" yr ystyr a roddir i "home authority" ym Mhennod 5A o Ran 10 o Ddeddf Addysg 1996, yn ddarostyngedig i reoliadau o dan is-adran ((2)) (a chaiff rheoliadau a wneir o dan adran 562J(4) o Ddeddf Addysg 1996 gan Weinidogion Cymru hefyd wneud darpariaeth mewn perthynas â'r diffiniad o awdurdod cartref at ddibenion y Rhan hon);

mae i "dechrau'r cyfnod o gadw person yn gaeth" yr ystyr a roddir i "beginning of the detention" ym Mhennod 5A o Ran 10 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56) (personau sy'n cael eu cadw'n gaeth mewn llety ieuenctid);

ystyr "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" ("*detained person*") yw plentyn neu berson ifanc—

(a) sy'n ddarostyngedig i orchymyn cadw (o fewn ystyr "detention order" yn adran 562(1A)(a) o Ddeddf Addysg 1996), a

(b) sy'n cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr,

ac mewn darpariaethau sy'n gymwys wrth i berson gael ei ryddhau mae'n cynnwys person a oedd, yn union cyn ei ryddhau, yn berson a oedd yn cael ei gadw'n gaeth.

(2) At ddibenion y Rhan hon, caiff rheoliadau ddarparu i baragraff (a) o'r diffiniad o "awdurdod cartref" yn adran 562J(1) o Ddeddf Addysg 1996 (awdurdod cartref plentyn sy'n derbyn gofal) fod yn gymwys gydag addasiadau mewn perthynas â darpariaethau yn y Rhan hon a bennir yn y rheoliadau.

**58 Llunio cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys pan y'i dygir i sylw awdurdod cartref yng Nghymru, neu yr ymddengys fel arall i'r awdurdod hwnnw—

(a) y gall fod ar berson sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol, a

(b) nad oes cynllun datblygu unigol yn cael ei gadw gan awdurdod lleol o dan adran 60.

(2) Rhaid i'r awdurdod—

(a) penderfynu a oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol, a

(b) os yw'n penderfynu bod gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol, benderfynu, yn unol â rheoliadau, a fydd yn angenrheidiol o bosibl gynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan fydd yn cael ei ryddhau,

oni bai bod adran 59 yn gymwys.

(3) Cyn i'r awdurdod cartref wneud ei benderfyniad rhaid iddo wahodd y person a chanddo ofal am y llety ieuenctid perthnasol i fod yn rhan o'r penderfyniad ac, os oes angen, ac yn rhan o'r gwaith o lunio'r cynllun datblygu unigol.

(4) Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol neu na fyddai angen cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan fydd yn cael ei ryddhau, rhaid iddo hysbysu'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, rhiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn a'r person a chanddo ofal am y llety ieuenctid perthnasol am—

(a) y penderfyniad, a

(b) y rhesymau dros y penderfyniad.

(5) Os yw'r awdurdod cartref yn penderfynu bod gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol, a gall fod angen cynnal cynllun datblygu unigol ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth pan fydd yn cael ei ryddhau, rhaid iddo—

(a) llunio cynllun datblygu unigol ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth, a

(b) rhoi copi o'r cynllun i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, rhiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn a'r person a chanddo ofal am y llety ieuenctid perthnasol.

**59 Amgylchiadau pan nad yw'r ddyletswydd yn adran 58 yn gymwys**

(1) Nid yw'r ddyletswydd yn adran 58(2) yn gymwys os yw is-adran (2) neu (3) yn gymwys.

(2) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn berson ifanc nad yw'n cydsynio i'r penderfyniad gael ei wneud.

(3) Mae'r is-adran hon yn gymwys os yw'r awdurdod cartref wedi penderfynu o'r blaen a oes gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol a'i fod wedi ei fodloni—

(a) nad yw anghenion y person sy'n cael ei gadw'n gaeth wedi newid yn sylweddol ers i'r penderfyniad hwnnw gael ei wneud, a

(b) nad oes gwybodaeth newydd sy'n effeithio'n sylweddol ar y penderfyniad hwnnw.

**60 Dyletswydd i gadw cynlluniau datblygu unigol ar gyfer personau sy'n cael eu cadw'n gaeth**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn perthynas â pherson sy'n cael ei gadw'n gaeth ac yr oedd cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar ei gyfer yn union cyn dechrau'r cyfnod o gadw'r person yn gaeth—

(a) gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru o dan adran 9,

(b) gan gorff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru o dan adran 10, neu

(c) gan awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 12 neu 19.

(2) Mae'r adran hon hefyd yn gymwys mewn perthynas â pherson sy'n cael ei gadw'n gaeth ac y mae'r awdurdod cartref wedi llunio cynllun datblygu unigol ar ei gyfer o dan adran 58.

(3) Mae'r ddyletswydd i gynnal y cynllun datblygu unigol o dan adran 9, 10, 12 neu 19 yn peidio â bod o ddechrau'r cyfnod o gadw'r person yn gaeth.

(4) Rhaid i'r awdurdod cartref gadw'r cynllun datblygu unigol tra bo'r person yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol.

(5) Ond nid yw'r ddyletswydd yn is-adran (4) yn gymwys mewn perthynas â pherson sy'n cael ei gadw'n gaeth ac yr oedd cynllun datblygu unigol yn cael ei gynnal ar ei gyfer gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir neu sefydliad yn y sector addysg bellach cyn dechrau'r cyfnod o gadw'r person yn gaeth oni bai, a hyd nes, y dygir y ffaith bod y cynllun yn cael ei gynnal i sylw'r awdurdod cartref.

(6) Rhaid i'r awdurdod cartref hysbysu'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth, rhiant person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn a'r person a chanddo ofal am y llety ieuenctid perthnasol yn ysgrifenedig ei fod yn cadw cynllun datblygu unigol tra bo'r person yn cael ei gadw'n gaeth mewn llety ieuenctid perthnasol.

(7) Pan fo awdurdod cartref yn cadw cynllun datblygu unigol, rhaid iddo drefnu i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol briodol gael ei darparu i'r person sy'n cael ei gadw'n gaeth.

(8) Yn yr adran hon ystyr "darpariaeth ddysgu briodol" yw—

(a) y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y cynllun datblygu unigol,

(b) os ymddengys i'r awdurdod cartref nad yw'n ymarferol i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y cynllun gael ei darparu, y ddarpariaeth addysgol sy'n cyfateb mor agos â phosibl i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol honno, neu

(c) os ymddengys i'r awdurdod cartref nad yw'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a bennir yn y cynllun yn briodol mwyach ar gyfer y person sy'n cael ei gadw'n gaeth, y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y mae'r awdurdod cartref yn ystyried ei bod yn briodol.

**61 Rhyddhau person sy'n cael ei gadw'n gaeth**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys—

(a) pan fo person sy'n cael ei gadw'n gaeth yn cael ei ryddhau,

(b) pan fo awdurdod lleol yng Nghymru yn gyfrifol am y person ar y dyddiad rhyddhau, a

(c) pan oedd cynllun datblygu unigol wedi ei gadw ar ei gyfer o dan adran 60 yn ystod y cyfnod o gadw'r person yn gaeth.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol gynnal y cynllun ac mae'r cynllun i gael ei drin fel pe bai'n cael ei gynnal o dan adran 12 at ddibenion y Ddeddf hon.

**62 Apelau**

(1) Nid yw'r adran hon ond yn gymwys—

(a) i benderfyniad awdurdod cartref yng Nghymru o dan adran 58, a

(b) i gynlluniau datblygu unigol a lunnir o dan yr adran honno.

(2) Caiff person sy'n cael ei gadw'n gaeth neu riant person sy'n cael ei gadw'n gaeth sy'n blentyn apelio i Dribiwnlys Addysg Cymru yn erbyn y materion a ganlyn—

(a) penderfyniadau'r awdurdod cartref o dan adran 58;

(b) y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cynllun datblygu unigol neu'r ffaith nad oes darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cynllun;

(c) yr ysgol neu'r sefydliad arall a enwir mewn cynllun datblygu unigol at ddiben adran 26,

(d) os nad enwir ysgol neu sefydliad mewn cynllun datblygu unigol at ddiben adran 26, y ffaith honno.

(3) Ar apêl, caiff Tribiwnlys Addysg Cymru—

(a) gwrthod yr apêl;

(b) gorchymyn bod gan y person sy'n cael ei gadw'n gaeth anghenion dysgu ychwanegol o fath a bennir yn y gorchymyn;

(c) gorchymyn i'r awdurdod cartref ddiwygio cynllun datblygu unigol fel a bennir yn y gorchymyn;

(d) anfon yr achos yn ôl i'r awdurdod cartref sy'n gyfrifol am y mater er mwyn iddo ailystyried, ar ôl rhoi sylw i unrhyw sylwadau a wneir gan y Tribiwnlys, a oes angen gwneud penderfyniad gwahanol neu gymryd camau gwahanol.

(4) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch apelau i Dribiwnlys Addysg Cymru, gan gynnwys, er enghraifft, darpariaeth—

(a) ynghylch gwneud apelau a phenderfynu arnynt;

(b) sy'n rhoi pwerau pellach i'r Tribiwnlys wrth benderfynu ar apêl;

(c) ar gyfer apelau heb wrthwynebiad.

(5) Caiff rheoliadau o dan is-adran (4)(b) gynnwys darpariaeth sy'n rhoi pŵer i'r Tribiwnlys, wrth benderfynu ar apêl yn erbyn mater, i wneud argymhellion mewn cysylltiad â materion eraill (gan gynnwys materion na chaniateir i apêl gael ei dwyn yn eu herbyn).

(6) Mae person yn cyflawni trosedd os yw'r person hwnnw heb esgus rhesymol yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad—

(a) mewn cysylltiad â datgelu neu arolygu dogfennau, neu

(b) i fod yn bresennol i roi tystiolaeth a dangos dogfennau,

pan fo'r gofyniad hwnnw wedi ei osod gan reoliadau o dan adran 41 mewn perthynas ag apêl o dan yr adran hon neu drwy reoliadau o dan is-adran (4).

(7) Mae person sy'n euog o drosedd o dan is-adran (6) yn agored ar gollfarn ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(8) Gweler yr adrannau a ganlyn am ddarpariaeth sy'n ymwneud ag apelau o dan yr adran hon—

(a) adran 38 (gwasanaethau eirioli annibynnol);

(b) adran 39 (cyfeillion achos);

(c) adran 41 (gweithdrefn);

(d) adran 42 (cydymffurfedd â gorchmynion);

(e) adran 43 (lwfansau am fod yn bresennol yn Nhribiwnlys Addysg Cymru);

(f) adran 44 (apelau o Dribiwnlys Addysg Cymru i'r Uwch Dribiwnlys).

## RHAN 4

## TRIBIWNLYS ADDYSG CYMRU

**63 Cyfansoddi Tribiwnlys Addysg Cymru**

(1) Mae Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn parhau i fodoli a chaiff ei ailenwi'n Dribiwnlys Addysg Cymru.

(2) Mae'r Tribiwnlys i gynnwys—

(a) Llywydd i'r Tribiwnlys,

(b) panel o bersonau a gaiff wasanaethu fel cadeirydd cyfreithiol y Tribiwnlys), ac

(c) panel o bersonau a gaiff wasanaethu fel y ddau aelod arall o'r Tribiwnlys ond nid fel y cadeirydd cyfreithiol.

(3) Mae'r Llywydd i gael ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus.

(4) Mae pob aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol i gael ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor gyda chytundeb y Llywydd.

(5) Mae aelodau'r panel lleyg i gael eu penodi gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Llywydd.

(6) Caiff rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol—

(a) darparu i awdurdodaeth y Tribiwnlys gael ei harfer gan unrhyw nifer o dribiwnlysoedd y mae'r Llywydd yn penderfynu arno o bryd i'w gilydd, a

(b) gwneud unrhyw ddarpariaeth arall mewn cysylltiad â sefydlu'r Tribiwnlys a'i barhad yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol neu'n ddymunol.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru ddarparu staff a llety ar gyfer y Tribiwnlys.

**64 Y Llywydd ac aelodau'r paneli**

(1) Ni chaniateir i berson gael ei benodi'n Llywydd nac yn aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol oni bai ei fod yn bodloni'r amod cymhwystra penodiad barnwrol ar sail 5 mlynedd.

(2) Ni chaniateir i berson gael ei benodi'n aelod o'r panel lleyg oni bai ei fod yn bodloni gofynion y caniateir iddynt gael eu rhagnodi mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol.

(3) Os yw'r Llywydd, ym marn yr Arglwydd Ganghellor a'r Arglwydd Brif Ustus, yn anaddas i barhau mewn swydd neu'n analluog i gyflawni ei ddyletswyddau, caiff yr Arglwydd Ganghellor (gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus) ei ddiswyddo.

(4) Mae pob aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol neu'r panel lleyg i ddal a gadael swydd o dan delerau'r offeryn y mae wedi ei benodi odano.

(5) Ond dim ond o dan delerau'r offeryn gyda chytundeb y Llywydd y caiff aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol neu'r panel lleyg gael ei ddiswyddo.

(6) O ran y Llywydd neu aelod o'r panel cadeirydd cyfreithiol neu'r panel lleyg—

(a) caiff ymddiswyddo drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Arglwydd Ganghellor neu (yn ôl y digwydd) i Weinidogion Cymru, a

(b) mae'n gymwys i gael ei ailbenodi os yw'n peidio â dal swydd.

**65 Tâl a threuliau**

Caiff Gweinidogion Cymru—

(a) talu tâl a lwfansau i'r Llywydd ac unrhyw berson arall mewn cysylltiad â'i wasanaeth fel aelod o'r Tribiwnlys, a

(b) talu treuliau'r Tribiwnlys.

## RHAN 5

## CYFFREDINOL

**66 Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol a throsiannol etc.**

(1) Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth o'r fath, cânt drwy reoliadau wneud—

(a) unrhyw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol, a

(b) unrhyw ddarpariaeth ddarfodol, drosiannol neu arbed.

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad neu ddogfen statudol.

(3) Rhaid i ddogfen statudol sydd wedi ei diwygio drwy reoliadau o dan yr adran hon ar ei ffurf ddiwygiedig gael ei chyhoeddi gan y person a chanddo'r swyddogaeth o wneud neu ddyroddi'r ddogfen.

(4) Yn yr adran hon, ystyr "dogfen statudol" yw offeryn (ac eithrio offeryn statudol) a wneir neu a ddyroddir o dan ddeddfiad—

(a) y mae rhaid i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei gymeradwyo cyn iddo gael ei wneud neu ei ddyroddi, neu

(b) sy'n ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**67 Rheoliadau**

(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn arferadwy drwy offeryn statudol.

(2) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon yn cynnwys pŵer i wneud—

(a) darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol;

(b) darpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol, ddarfodol, drosiannol neu arbed.

(3) Ni chaniateir i offeryn statudol sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol gael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddo drwy benderfyniad—

(a) rheoliadau o dan adran 3(4), 12(3)(c)(ii), 23, 39, 40(4), 41, 52, 53 neu 62(4);

(b) rheoliadau a wneir o dan adran 56 neu 66 sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(4) Mae unrhyw offeryn statudol arall sy'n cynnwys rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf hon yn ddarostyngedig i gael ei ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**68 Dehongli cyffredinol**

(1) Yn y Ddeddf hon—

mae "addysg" ("*education*") yn cynnwys addysg lawnamser a rhan-amser, ond nid yw'n cynnwys addysg uwch; ac mae "addysgol" ("*educational*") ac "addysgu" ("*educate*") (a thermau cysylltiedig eraill) i gael eu dehongli yn unol â hynny;

mae i "anghenion dysgu ychwanegol" ("*additional learning needs*") yr ystyr a roddir gan adran 2;

mae "awdurdod cartref" ("*home authority*") wedi ei ddiffinio yn adran 57 at ddibenion Rhan 3;

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru (ac eithrio pan fo'r cyfeiriad at awdurdod lleol yn Lloegr);

ystyr "Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol" ("*National Health Service Commissioning Board*") yw corff a sefydlwyd o dan adran 1H o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (p. 41);

ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42);

ystyr "cyfaill achos" ("*case friend*") yw person a benodir o dan adran 39;

mae i "corff llywodraethu", mewn perthynas â chorff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach, yr ystyr a roddir i "governing body" gan adran 90 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13);

mae i "cynllun datblygu unigol" ("*individual development plan*") yr ystyr a roddir gan adran 8;

mae i "darpariaeth ddysgu ychwanegol" ("*additional learning provision*") yr ystyr a roddir gan adran 3;

mae "dechrau'r cyfnod o gadw person yn gaeth" ("*beginning of the detention*") wedi ei ddiffinio yn adran 57 at ddibenion Rhan 3;

ystyr "deddfiad" ("*enactment*") yw darpariaeth sydd wedi ei chynnwys yn unrhyw un o'r canlynol (pa bryd bynnag y'i deddfir neu y'i gwneir)—

(a) Deddf Seneddol;

(b) Mesur neu Ddeddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys darpariaeth yn y Ddeddf hon);

(c) is-ddeddfwriaeth a wneir o dan Ddeddf sy'n dod o fewn paragraff (a) neu Fesur neu Ddeddf sy'n dod o fewn paragraff (b);

ystyr "grŵp comisiynu clinigol" ("*clinical commissioning group*") yw corff a sefydlwyd o dan adran 14D o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (p. 41);

mae "hyfforddiant" ("*training*") yn cynnwys—

(a) hyfforddiant llawnamser a rhan-amser;

(b) hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol, corfforol a hamdden;

mae i "llety ieuenctid perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant youth accommodation" gan adran 562(1A)(b) o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56);

ystyr "Llywydd" ("*President*") yw Llywydd Tribiwnlys Addysg Cymru a benodir o dan adran 63;

ystyr "panel lleyg" ("*lay panel*") yw'r panel o bersonau a benodir o dan adran 63(5);

ystyr "panel cadeirydd cyfreithiol" ("*legal chair panel*") yw'r panel o bersonau a benodir o dan adran 63(4) (ac ystyr "cadeirydd cyfreithiol" ("*legal chair*") yw aelod o'r panel);

ystyr "perchennog" ("*proprietor*"), mewn perthynas â sefydliad nad yw'n ysgol, yw'r person neu'r corff o bersonau sy'n gyfrifol am reoli'r sefydliad;

ystyr "person ifanc" ("*young person*") yw person sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol, ond sy'n iau na 25 oed;

mae "person sy'n cael ei gadw'n gaeth" ("*detained person*") wedi ei ddiffinio yn adran 57 at ddibenion Rhan 3;

ystyr "plentyn" ("*child*") yw person nad yw'n hŷn na'r oedran ysgol gorfodol;

ystyr "rhagnodedig" ac "a ragnodir" ("*prescribed*") yw wedi ei ragnodi mewn rheoliadau;

ystyr "rheoliadau" ("*regulations*") yw rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru;

ystyr "sefydliad prif ffrwd yn y sector addysg bellach" ("*mainstream institution in the further education sector*") yw sefydliad yn y sector addysg bellach nad yw wedi ei drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol;

ystyr "sefydliad yn y sector addysg bellach" ("*institution in the further education sector*") yw sefydliad sy'n dod o fewn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p. 13);

mae i "swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol" ("*social services functions*") yr ystyr a roddir gan adran 143 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4);

ystyr "Tribiwnlys" ("*Tribunal*") yw Tribiwnlys Addysg Cymru (gweler adran 63);

ystyr "ymddiriedolaeth GIG" ("*NHS trust*") yw ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p. 42);

mae i "ymddiriedolaeth sefydledig GIG" yr ystyr a roddir i "NHS foundation trust" gan adran 30 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 (p. 41);

ystyr "ysgol a gynhelir" ("*maintained school*") yw—

(a) ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol,

(b) ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig nas sefydlwyd mewn ysbyty,

(c) ysgol feithrin a gynhelir, neu

(d) uned cyfeirio disgyblion;

ystyr "ysgol brif ffrwd a gynhelir" ("*mainstream maintained school*") yw ysgol a gynhelir—

(a) nad yw'n ysgol arbennig, a

(b) nad yw'n uned cyfeirio disgyblion.

(2) Mae gan blentyn anabledd at ddibenion y Ddeddf hon os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 (p. 15).

(3) Yn y diffiniad o "ysgol a gynhelir" yn is-adran (1), mae i—

(a) ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol, neu

(b) ysgol arbennig gymunedol neu sefydledig,

yr ystyr a roddir i "community, foundation or voluntary school" a "community or foundation special school" gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31).

(4) Yn y Rhan hon—

(a) mae sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru os cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru;

(b) mae sefydliad yn y sector addysg bellach yn Lloegr os cynhelir ei weithgareddau yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr.

(5) Mae Deddf Addysg 1996 (p. 56) a darpariaethau blaenorol y Ddeddf hon (ac eithrio i'r graddau y maent yn diwygio Deddfau eraill nad ydynt yn Ddeddfau Addysg) i gael eu dehongli fel pe cynhwysid y darpariaethau hynny yn Neddf Addysg 1996.

**69 Dod i rym**

(1) Daw'r adran hon ac adrannau 1, 67, 68 a 70 i rym ar y diwrnod y mae'r Ddeddf hon yn cael y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw gweddill darpariaethau'r Ddeddf hon i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru mewn gorchymyn a wneir drwy offeryn statudol.

(3) Caiff gorchymyn o dan is-adran (2)—

(a) pennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol neu ar gyfer achosion gwahanol;

(b) gwneud darpariaeth ddarfodol, drosiannol neu arbed mewn cysylltiad â dod â darpariaeth yn y Ddeddf hon i rym.

**70 Enw byr a chynnwys y Ddeddf yn y rhestr o Ddeddfau Addysg**

(1) Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2016.

(2) Mae'r Ddeddf hon i gael ei chynnwys yn y rhestr o Ddeddfau Addysg a nodir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996 (p. 56).